# Mesur Addysg (Cymru) 2009

**2009 mccc 5**

## RHAN 1

APELAU A HAWLIADAU ADDYSG GAN BLANT

*Treialu*

### 19 Dehongli adrannau 17 ac 18

(1) Yn adrannau 17 ac 18—

ystyr "awdurdodau lleol" ("local authorities") yw awdurdodau addysg lleol yng Nghymru;

ystyr "perchennog" ("proprietor") mewn perthynas ag ysgol yw'r person neu'r corff o bersonau sy'n gyfrifol am reoli'r ysgol (a'i ystyr felly mewn perthynas ag ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol neu ysgol arbennig gymunedol neu sefydledig, neu ysgol feithrin a gynhelir, yw'r corff llywodraethu);

mae "plentyn" ("child") yn cynnwys unrhyw berson nad yw eto'n 19 oed ac sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol;

mae i "plentyn anabl" ("disabled child") yr ystyr sydd i "disabled child" yn adran 28IB o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995;

mae i "rhiant" ("parent") yr ystyr a roddir i "parent" yn adran 576 o Ddeddf Addysg 1996;

ystyr "Tribiwnlys Cymru" ("Welsh Tribunal") yw Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru;

ystyr "ysgol berthnasol" ("relevant school") yw—

(a) ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir,

(b) uned cyfeirio disgyblion,

(c) ysgol annibynnol a enwir yn y datganiad a gedwir ar gyfer y plentyn o dan adran 324 o Ddeddf Addysg 1996, neu

(d) ysgol a gymeradwyir o dan adran 342 o Ddeddf Addysg 1996;

ystyr "ysgol a gynhelir" ("maintained school") yw unrhyw ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol neu unrhyw ysgol arbennig gymunedol neu sefydledig nas sefydlwyd mewn ysbyty;

ystyr "ysgol feithrin a gynhelir" ("maintained nursery school") yw ysgol feithrin a gynhelir gan awdurdod addysg lleol ac nad yw'n ysgol arbennig.

(2) At ddibenion adran 17(2)(c) ac 18(1)(g)(iii), penderfynir ar y corff sy'n gyfrifol am ysgol yn unol â pharagraff 1 o Atodlen 4A i Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995.

(3) Mae awdurdod lleol yn gyfrifol am blentyn at ddibenion adran 17(2)(a) os yw'r plentyn yn ei ardal—

(a) a bod y plentyn yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir,

(b) a bod addysg yn cael ei darparu ar gyfer y plentyn mewn ysgol nad yw'n ysgol a gynhelir neu'n ysgol feithrin a gynhelir, ond ei bod yn cael ei darparu felly ar gost yr awdurdod,

(c) ac nad yw'r plentyn yn dod o fewn (a) neu (b), ond bod y plentyn yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a'i fod wedi ei ddwyn i sylw'r awdurdod am fod ganddo (neu am ei bod yn debygol bod ganddo) anghenion addysgol arbennig, neu

(d) ac nad yw'r plentyn yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol, ond nad yw o dan ddwyflwydd oed neu dros oedran ysgol gorfodol a'i fod wedi ei ddwyn i sylw'r awdurdod am fod ganddo (neu am ei bod yn debygol bod ganddo) anghenion addysgol arbennig.